# CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR:
# PANEL AMGYLCHIADAU ARBENNIG

**YN ADRODD I:** Bwrdd Arholi’r Senedd
**YN CYFARFOD:** Yn union cyn pob cyfarfod o Fwrdd Arholi’r Senedd

---

**AELODAU:**

- Y Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb am safonau academaidd, oni bai bod cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i Ddirprwy Is-Ganghellor arall neu i uwch aelod arall o staff sydd â phrofiad addas (Cadeirydd)
- Deoniaid Cyswllt y Cyfadrannau, oni bai bod cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i uwch aelod arall o staff sydd â phrofiad addas
- Dirprwy Gofrestrydd a/neu Gofrestrydd Cynorthwyol (Gweinyddiaeth Myfyrwyr) (Ysgrifenyddion i'r Panel)

Gall Deon Cyswllt Cyfadran hefyd gadeirio ar yr amod bod ganddo/ganddi ddigon o annibyniaeth oddi wrth yr Adrannau Academaidd sy'n cael eu hystyried. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol i uwch aelod arall o staff y Gyfadran sydd â phrofiad addas i fod yn bresennol yn aelod o'r panel.

Cworwm: Cadeirydd + un aelod o bob Cyfadran (4 aelod)

---

**CYLCH GWAITH**

Mae'r Panel Amgylchiadau Arbennig yn gyfrifol am adolygu'r argymhellion a ddaw o’r Byrddau Arholi Adrannol yn unol â Confensiynau’r Arholiadau er mwyn sicrhau cysondeb wrth weithredu. Bydd y panel yn gwneud argymhellion i Fwrdd Arholi'r Senedd i'w cymeradwyo'n derfynol.

---

**CYLCH GORCHWYL**

Cyflawni'r holl weithgareddau canlynol yng nghyswllt cynlluniau gradd Prifysgol Aberystwyth sy’n cael eu darparu yn y cartref-gampws ac unrhyw gangen-gampws, ac mewn cydweithrediad â phartner-ddarparwyr.

1. Adolygu argymhellion Amgylchiadau Arbennig a ddaw o Fyrddau Arholi’r Adrannau i ddyfarnu hawl i ailsefyll arholiadau Anrhydedd.

2. Adolygu argymhellion Byrddau Arholi’r Adrannau i godi dosbarth graddau trwy drefn Drws Trugaredd yn unol â Confensiynau’r Arholiadau.

3. Adolygu argymhellion Byrddau Arholi’r Adrannau ynglŷn â symud ymlaen yn achos myfyrwyr sy'n dod nôl ar ôl cynllun cyfnewid neu flwyddyn astudio dramor heb gael digon o gredydau a/neu wedi methu elfennau.

4. Adolygu pob achos o ran yr egwyddor o gynnal cymharedd rhwng myfyrwyr unigol.

5. Gwneud argymhellion i Fwrdd Arholi'r Senedd ynglŷn ag (1), (2) a (3) i'w cymeradwyo'n derfynol.